



Diogelu Gwent Gwent Safeguarding

**Protocol amlasiantaethol ar
gyfer goruchwyllo rhieni a
gofalyddion plant a phobl i
fanc sy'n cael eu derbyn i
ysbyty lle mae pryderon
ynghylch diogelu.**



Cynnwys

Tudalen

1. Cyflwyniad ac Egwyddorion Sylfaenol	3
2. Plant sy'n cael eu derbyn i ysbyty ar gyfer rhagor o archwiliadau meddygol sy'n destun ymchwiliad amddiffyn plant (Adran 47)	4
3. Pan fo plentyn yn mynd i'r Adran Argyfwng gydag anaf a asesir wedyn yn anaf annamweiniol a amheuir posibl	5
4. Derbyniadau i ysbyty wedi'u cynllunio neu frys i blant sy'n cael cyswllt â rhiant/ gofalydd / aelod o'r teulu dan oruchwyliaeth yn y gymuned	5
5. Mamolaeth	6
Atodiad 1: Gofalyddion Diogel Dynodedig (i'w lenwi gan lechyd a'i ychwanegu at Gofnodion Meddygol y Plentyn)	7
Atodiad 2: Cyfeiriadau	8

Diolchiadau

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn diolch i Fyrddau Lleol Diogelu Plant Caerdydd a Bro Morgannwg

1. Cyflwyniad ac Egwyddorion Sylfaenol

- 1.1. Nod y protocol hwn yw rhoi sylw i anghenion goruchwyliaeth plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ysbyty neu eu geni mewn ysbyty lle mae pryderon diogelu e.e. anaf annamweiniol a amheuir a phlant sy'n cael eu derbyn i ysbyty (naill ai wedi'i gynllunio neu achos brys) sy'n cael cyswllt dan oruchwyliaeth â rhieni / gofalyddion / aelodau o'r teulu yn y gymuned. Cydnabyddir y bydd efallai achosion cyfreithiol preifat neu gyhoeddus mewn perthynas â phlant. Diben y protocol hwn yw goruchwyllo rhieni a gofalyddion plant a phobl ifanc sy'n cael eu derbyn i ysbyty lle mae pryderon diogelu. Mae canllawiau ar wahân yn cael eu datblygu i nodi'r hyn sy'n ofynnol i gynorthwyo neu oruchwyllo plant sy'n cael eu derbyn i ysbyty pan fônt yn cael Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).
- 1.2. Yn unol â'r diffiniad yn y Ddeddf Plant (1989) bernir bod plentyn yn iau na 18 mlwydd oed.
- 1.3. Mae pob cyfeiriad at lechyd drwyddi draw yn y protocol hwn yn cynnwys staff meddygol a nyrsio, Tîm Corfforaethol Diogelu Plant (iechyd) neu unrhyw un arall o gyflogeion Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, fel mae'r sefyllfa yn caniatáu.
- 1.4. Gall amgylchedd yr ysbyty a chael eu gwahanu oddi wrth y drefn ddyddiol arferol achosi teimladau o bryder i blant a theuluoedd. Mewn amgylchiadau arferol mae staff iechyd a rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu yn cydweithio i sicrhau y caiff anghenion emosiynol a chorfforol y plentyn eu diwallu. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achlysuron pan fydd rhaid goruchwyllo cyswllt rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu â'r plentyn er mwyn sicrhau y caiff y plentyn ei ddiogelu'n ddigonol ac y caiff amgylchedd y ward ei reoli'n ddiogel.
- 1.5. Mae dull amlasiantaethol o asesu a darparu gwasanaethau er budd pennaf y plentyn a'i rieni. Mae angen cyd-ddealltwriaeth o gydweithio sy'n derbyn cydberchnogaeth ar heriau a chydreoli risg.
- 1.6. Mae'r penderfyniad i gyfyngu ar gyswllt rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu â'u plentyn yn yr ysbyty, neu ei oruchwyllo neu hyd yn oed ei wrthod, yn benderfyniad y dylid ei wneud mewn trafodaeth(au) strategaeth amlasiantaethol, yn dilyn ymchwiliadau cychwynnol. Rhaid i'r rhesymau am y penderfyniad hwn gael eu cofnodi yng nghofnodion meddygol y plentyn.
- 1.7. Rhaid i unrhyw drafodaethau ynghylch y cyswllt rhwng plant a'u rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu ystyried pa gamau sydd er budd pennaf y plentyn ac ar yr un pryd cymryd llais y plentyn i ystyriaeth.
- 1.8. Lle cytunwyd bod angen i'r rhiant / gofalydd / aelod o'r teulu gael ei oruchwyllo yn y ward, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio dynodi pobl briodol i wneud y gwaith goruchwyllo hwn o fewn y teulu i ddechrau, ond os nad yw hyn yn bosibl oherwydd y risgiau sy'n gysylltiedig, byddai gweithwyr proffesiynol yn cael eu dynodi. Ar ôl iddynt gael eu cytuno, bydd enwau'r goruchwylwyr cyswllt, a'r oriau cyswllt cytunedig, yn cael eu cofnodi yn y ddogfen Gofalyddion Diogel Dynodedig (atodiad 1) sydd wedyn yn cael ei gosod yng nghofnodion yr ysbyty. Ni chaiff y ddogfen ei diwygio ond gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant neu Dîm Dyletswydd Argyfwng De-ddwyrain Cymru (y tu allan i oriau swyddfa neu ar benwythnosau). Ni all staff yr ysbyty ychwanegu enwau ar gais y rhieni. Disgwylir i staff nyrsio gofnodi yng nghofnod iechyd plentyn pwy sy'n darparu goruchwyliaeth a phryd, pob dydd.

- 1.9. Bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn llunio Cynllun Diogelwch unigol manwl a gaiff ei roi ar waith a'i gytuno gan yr holl bartion ar gyfer pob teulu sydd angen goruchwyliaeth mewn ysbyty. Dylai'r Cynllun Diogelwch gynnwys adran trefniadau wrth gefn, a dylai hon gael ei rhannu â'r Tîm Dyletswydd Argyfwng rhag ofn i'r trefniadau goruchwyllo fethu y tu allan i oriau swyddfa.
- 1.10 Os yw rhiant yn aros gyda'r plentyn trwy'r amser, rhaid iddo gytuno i gyflawni pob agwedd ar ofal ym mhresenoldeb y sawl sy'n goruchwyllo.
- 1.11 Os, ar unrhyw adeg yn ystod arhosiad y plentyn yn yr ysbyty, y caiff pryderon eu codi bod lles y plentyn neu amgylchedd y ward yn cael ei beryglu gan rieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu, rhaid cymryd camau amddiffyn ar unwaith i ddiogelu'r plentyn a'r amgylchedd. Os yw rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu yn peidio â chydymffurfio â cheisiadau, dylai lechyd ofyn am gymorth gan swyddogion diogelwch / heddlu. Rhaid i lechyd roi gwybod i Wasanaethau Cymdeithasol Plant am unrhyw ddigwyddiadau a rhaid cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol). DATIX i gael ei gyflwyno gan lechyd. Rhaid ceisio cymorth gan yr heddlu trwy 999 ar unwaith os yw rhiant/gofalyddion/aelodau o'r teulu yn ceisio mynd â'r plentyn o'r ward.

Camau i'w cymryd

- 2. Plant sy'n cael eu derbyn i ysbyty ar gyfer rhagor o archwiliadau meddygol sy'n destun ymchwiliad amddiffyn plant (Adran 47)**
- 2.1. Yn dilyn yr archwiliadau meddygol, cynhelir trafodaeth gofnodedig rhwng lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant i gytuno ar oruchwyliaeth briodol i'r plentyn. Gwasanaethau Cymdeithasol Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng sy'n bennaf gyfrifol am ddynodi goruchwyliaeth briodol.
- 2.2 Gwasanaethau Cymdeithasol Plant sy'n gyfrifol am roi gwybod i staff lechyd am unrhyw wyriadau o'r Gofalyddion Diogel Dynodedig. Rhaid i staff lechyd a Gweithiwr Cymdeithasol gofnodi'r newidiadau hyn yn y ddogfen Gofalyddion Diogel Dynodedig (gweler atodiad 1).
- 2.3 Disgwylir i'r person â chyfrifoldeb rhiant fod yn bresennol i gynorthwyo â thawelu meddwl y plentyn a rhoi cydsyniad meddygol.
- 2.4 Lle bo rhieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu yn gadael yr ysbyty rhaid gofyn am yr holl wybodaeth feddygol a'r wybodaeth am ofal berthnasol gan y rhieni cyn iddynt adael, er enghraifft: ffactorau meddygol fel alergeddau hysbys, materion yn ymwneud â gofal plant fel amser gwely ac arferion bwydo neu unrhyw amgylchiadau arbennig eraill sy'n ymwneud â'r plentyn.
- 2.5 Ar ôl i'r asesiad meddygol gael ei gwblhau bydd cyfarfod neu drafodaeth strategaeth amlasiantaethol yn cael ei gydgyssylltu gan Wasanaethau Plant. Cynhelir y cyfarfod/trafodaeth strategaeth yn yr ysbyty. Dylid ystyried presenoldeb rhithwir os na all unrhyw un o'r personél perthnasol ddod i'r ysbyty er mwyn osgoi oedi os yw'r plentyn yn ffit i gael ei ryddhau. Rhoddir gwybod i rieni/gofalyddion/aelodau o'r teulu am ganlyniad y cyfarfod/trafodaeth strategaeth gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant ynghyd â gweithiwr ieuchyd proffesiynol os gofynnir am hynny.
- 2.6 Rhaid i ganlyniad y cyfarfod/trafodaeth strategaeth gael ei gofnodi'n glir yng nghofnod meddygol y plentyn gan staff ieuchyd ac ar y systemau rheoli achosion perthnasol gan yr holl asiantaethau eraill sy'n ymwneud â'r achos.

2.7 Mewn perthynas â phlant sy'n gleifion mewnol oherwydd pryderon diogelu **ac** sydd angen ymyrraeth lechyd ac mae eu rhieni wedi gadael y ward heb esboniad, bydd lechyd yn y lle cyntaf yn darparu gofal a goruchwyliaeth i'r plentyn ond yn hysbysu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ar unwaith trwy alwad ffôn ac yn cyflwyno ffurflen Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol). Wrth adrodd am hyn bydd lechyd yn nodi'n glir anghenion gofal y plentyn a fydd yn dibynnu ar ei oed a'i gam datblygiadol.

3. Pan fo plentyn yn mynd i'r Adran Argyfwng gydag anaf a asesir wedyn yn anaf annamweiniol a amheuir posibl

3.1 Bydd ymarferydd yr Adran Argyfwng yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac yn hysbysu'r pryderon i Wasanaethau Cymdeithasol Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng os yw y tu allan i oriau swyddfa (trwy alwad ffôn ac wedyn trwy ffurflen Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol) a'r Pediatregydd ar alwad ar gyfer Amddiffyn Plant.

3.2 Ar yr adeg honno a hyd nes i'r drafodaeth strategaeth amlasiantaethol gael ei chynnal, bydd y plentyn yn aros gyda'i rieni/gofalyddion. Rhaid i unrhyw sylwadau am bryderon gael eu cofnodi ynghyd ag unrhyw ddisgrifiadau gwahanol o'r ffordd y digwyddodd yr anaf gan y plentyn o gymharu â'r rhai a roddir gan y rhiant/gofalydd, hefyd disgrifiadau gwahanol rhwng rhieni/gofalyddion a disgrifiadau gwahanol dros amser.

3.3 Ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud i symud ymlaen at ymchwiliad amddiffyn plant ac archwiliad meddygol amddiffyn plant, bydd gweithiwr cymdeithasol yn cael ei ddynodi ac yn dod i'r ysbyty.

Wedyn bydd y broses yn dilyn ymlaen o bwynt 2.1 uchod

4. Derbyniadau i ysbyty wedi'u cynllunio neu frys i blant sy'n cael cyswllt â rhiant/ gofalydd / aelod o'r teulu dan oruchwyliaeth yn y gymuned

4.1 Os oes angen goruchwyllo rhieni gyda'u plant yn y gymuned, rhaid i'r trefniant hwn barhau pan fydd y plentyn yn yr ysbyty. Cyfrifoldeb Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng os yw y tu allan i oriau swyddfa, yw canfod goruchwyliaeth briodol a sicrhau y caiff rhieni eu diweddarau ynghylch trefniadau cyswllt. Os bydd y trefniadau goruchwyllo'n methu, dylech gyfeirio at y cynllun wrth gefn yn y ddogfen cynllun diogelwch (gan gyfeirio at baragraff 1.9) a ddylai nodi'r ffordd y gellir cyflawni goruchwyliaeth y tu allan i oriau swyddfa e.e. gan aelod arall o'r teulu neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng i ddod o hyd i gymorth.

4.2 Dylai Gwasanaethau Cymdeithasol Plant gysylltu â'r nyrs â chyfrifoldeb a'i hysbysu am y rhesymau pam mae cyswllt dan oruchwyliaeth ar waith ac am fanylion y trefniadau goruchwyllo presennol. Rhaid i'r staff iechyd gofnodi'r wybodaeth hon yng nghofnodion meddygol y plentyn.

4.3 Rhaid i unrhyw bryderon sydd gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant neu'r Tîm Dyletswydd Argyfwng ynghylch ymddygiad rhieni, risg i'r plentyn neu risg i amgylchedd y ward gael eu cyfleu i'r Nyrs â Chyfrifoldeb wrth dderbyn y plentyn. Rhaid i unrhyw asesiadau risg perthnasol sydd gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant gael eu rhannu gyda'r gwasanaeth lechyd, a'u nodi yng nghofnodion meddygol y plentyn. Caiff hyn ei wneud ar lafar drwy roi crynodeb o unrhyw asesiad risg perthnasol.

4.4 Cyfrifoldeb lechyd yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni / gofalyddion / aelodau o'r teulu, a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant / Tîm Dyletswydd Argyfwng am gyflwr a chynnydd meddygol y plentyn.

5. Mamolaeth

5.1 Bydd yr holl egwyddorion uchod yn berthnasol i'r Gwasanaethau Mamolaeth.

5.2 Bydd angen i Wasanaethau Cymdeithasol Plant lunio cynllun diogelu cyn-geni ysgrifenedig, sy'n nodi a oes angen goruchwyliaeth ai peidio. Rhaid rhannu a chytuno ar y cynllun gydag Arweinydd Diogelu Mamolaeth y Bwrdd lechyd yn amserol h.y. 34 o wythnosau. Mewn rhai achosion unigol, oherwydd cymhlethdodau'r achos a'r risg a achosant, efallai bydd angen trafod gyda'r Uwch Dîm Rheoli Bydwreigiaeth ac asiantaethau partner eraill.

5.3 Bydd staff mamolaeth yn rhoi gofal arferol i'r fam a'r baban, yn nodi unrhyw sgiliau rhianta neu bryderon ac yn eu rhannu fel sy'n briodol â'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant. Os yw lechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi cytuno bod angen arsylwi ar y fam a'r baban (nid eu goruchwyllo), byddant yn cael eu nyrsio mewn man yr arsylwir arno'n aml.

5.3 Os yw rhiant yn gadael y ward a heb ddychwelyd ar ôl amser priodol, rhoddir gwybod yn syth i'r Gwasanaethau Cymdeithasol Plant/Tîm Dyletswydd Argyfwng dros y ffôn, gyda ffurflen Dyletswydd i Adrodd (Ffurflen Atgyfeirio Amlasiantaethol) i ddilyn. Rhoddir gwybod i'r Uwch Dîm Rheoli Bydwreigiaeth hefyd, a dylai staff bydwreigiaeth roi gofal am gyfnod byr hyd nes y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Plant wedi dod o hyd i ofalydd priodol. At ddibenion y protocol hwn, ystyr cyfnod byr yw heb fod yn fwy na 3 awr.

5.4 Pan fydd y baban yn ffit yn feddygol i'w ryddhau o'r ysbyty, disgwylir y gwneir pob ymdrech i gadw at y cynllun diogelu cyn-geni i sicrhau rhyddhad cyflym. Fodd bynnag, os bydd angen i'r baban aros yn yr ysbyty am gyfnod hirach oherwydd arsylwadau, caiff trafodaethau eu cynnal ar sail unigol rhwng yr Arweinydd Diogelu Mamolaeth, Rheolwyr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cymdeithasol Plant/Tîm Dyletswydd Argyfwng. Disgwylir y bydd Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn gyfrifol am ddarparu gofal i'r baban cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl.

Atodiad 1: Gofalyddion Diogel Dynodedig (i'w lenwi gan lechyd a'i ychwanegu at Gofnodion Meddygol y Plentyn)

Enw'r Plentyn:				
Dyddiad Geni'r Plentyn:				
Enw'r Gweithiwr Cymdeithasol:				
Manylion Cyswllt y Gweithiwr Cymdeithasol:				
Aelodau o'r teulu / ffrindiau i'r teulu sy'n gallu goruchwylio'r plentyn				
Enw	Perthynas	Rhif Cyswllt	Argaeledd	Pobl a eithriwyd rhag cysylltu

Llofnodwyd gan Weithiwr Cymdeithasol

Llythrennau Bras

Dyddiad

DS Rhaid i Wasanaethau Plant/ yr Heddlu gwblhau unrhyw ddiwygiad i'r uchod. Ni chaiff lechyd ei ddiwygio

Dyddiad ac Amser y'i hadolygwyd

Enw'r Gweithiwr Proffesiynol sy'n adolygu

Atodiad 2: Cyfeiriadau

- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019
- Deddf Plant 1989: [Deddf Plant, 1989](#)
- Deddf Plant 2004: [Deddf Plant, 2004](#)